

# Cynadleddau Cardiff Met


*Anadlu bywyd i mewn i'ch  
gweledigaeth*



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd





“  
Pobl yw'r peth pwysicaf am  
gynadleddau... ac mae ein tîm  
ni'n cymryd balchder a gofal  
gyda phob manylyn i sicrhau bod  
y digwyddiad yn llwyddiant a bod  
y cynrychiolwyr yn hapus. ”

Clare Brockway  
Rheolwr Cynadleddau

YN DARPARU  
GWASANAETH  
CWSMERIAID, GWAITH  
TÎM AC ARBENIGEDD  
O'R RADD FLAENAF...  
YN ANADLU BYWYD  
I MEWN I'CH  
DIGWYDDIAD CHI

# Cynnwys

Eich Gweledigaeth	3
Lleoliadau Unigryw	4
Cipolwg	5
Cwrdd â'ch anghenion chi	11
Gorffwyso ac Ymlacio	14
Chwaraeon i Bawb	15
Llwyddiant Tîm	17
Cysylltu â Ni	18

## MEWN FFOCWS

- Datrysiadau digwyddiadau unigryw i ddiwallu eich amcanion.
- Cyngor a chymorth gyda chynllunio'ch cynhadledd.
- Rhestr wirio cynllunio digwyddiad.

# Eich Gweledigaeth

Mae Cynadleddau Met Caerdydd yn deall beth sydd ei angen i sicrhau bod digwyddiad yn rhedeg yn llyfn. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cwsmeriaid trwy gydol y broses i sicrhau bod pob manylyn yn cael ei ystyried.

Gyda Thîm Cynhadledd profiadol, sy'n canolbwyntio ar y diwydiant digwyddiadau yn ogystal â darparu rhagoriaeth ym maes gwasanaethau cwsmeriaid, gallwn sicrhau cynllunio a chyflawniad didrfferth, cynrychiolwyr hapus yn eich digwyddiad a bod eich gweledigaeth yn cael ei gwireddu.



“

Hoffwn ddiolch i chi am drefnu digwyddiad ardderchog mewn lleoliad gwych. Roedd y staff yn sylwgar ac yn garedig - dyma'r digwyddiad gorau i ni ei gynnal erioed, ac mae'r diolch am hynny yn bennaf i chi a'ch staff. Heb oedi, byddem yn eich argymhell i unrhyw un.

”

PM Premier

“

Diolch yn fawr am eich help gyda'n digwyddiad heddiw. Aeth popeth yn hollol ddiraffferth ac mae'r diolch am hynny i'ch holl waith caled

”

Effective Communication

“

Hoffem ddiolch i Met Caerdydd am helpu i wneud cynhadledd 'Ceramica' yn benwythnos i'w gofio. Roedd y llety yn ardderchog a chafodd y cynrychiolwyr ofal da gan y timau Gwasanaethau Cynadledda ac Arlwyio yn y lleoliad ardderchog hwn.

”

Crochenwyr De Cymru


- ✓ Sesiynau Hyfforddiant
- ✓ Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd
- ✓ Hyfforddiant TG
- ✓ Cyfarfodydd Bwrdd
- ✓ Cyfarfodydd Tîm
- ✓ Arddangosfeydd
- ✓ Digwyddiadau Chwaraeon
- ✓ Llety Haf

# Lleoliadau Unigryw

Beth bynnag yw natur eich digwyddiad - cynhadledd breswyl, gwrsyll hyfforddi chwaraeon neu arddangosfa fawr - bydd tîm Cynadleddau Met Caerdydd yn creu datrysiad lleoliad wedi'i deilwra i chi.

Bydd digon o ddewis gennych chi o ran adnoddau cyfarfod a chynadledda. Mae ein portffolio'n cynnwys ystafelloedd cynadledda modern gyda gosodiad hyblyg, theatrau darlithio haenog, ystafelloedd TG, ystafelloedd hyfforddi, llety ystafelloedd sengl ac adnoddau chwaraeon o'r radd flaenaf. I sicrhau eich bod yn elwa i'r eithaf o'ch digwyddiad, rydym hefyd yn cynnig detholiad o ardaloedd ymlacio i annog cynrychiolwyr i gymdeithasu a sgwrsio.

Yn ogystal â darparu ystafelloedd cyfarfod cyfoes ac ysbrydoledig mewn dau leoliad unigryw, mae'r cyfleusterau yn swyddogaethol ac yn hollol hygrych.



# Cipolwg

	Dimensiynau	Ystafell y Bwrdd	Theatr	Cabare	Ystafell Ddosbarth
Ystafell Gynhadledd 1	8.9m x 8.8m	32	66	42	36
Ystafell Gynhadledd 2	5.6m x 8.8m	24	40	23	20
Ystafell Gynhadledd 3	5.8m x 8.8m	24	44	23	20
Ystafell Gynhadledd 2-3	11.4m x 8.8m	36	80	54	40

Ystafelloedd Llandaf	Capasiti				
	Dimensiynau	Ystafell y Bwrdd	Theatr	Cabare	Ystafell Ddosbarth
Ystafell A a B (gydai'i gilydd)	14.9m x 8m	32	80	66	80
Ystafell A	9m x 8m	24	66	30	48
Ystafell B	5.9m x 8m	16	44	18	32

Ystafelloedd Cyfarfod a Chynadledda Eraill	Capasiti	Nifer yr Ystafelloedd
Theatr Ddarlithio Haenog	300	2
Theatr Ddarlithio Haenog	90-260	6
Theatr Ddarlithio Haenog	49 - 80	9
Ystafelloedd Seminar / Ymlacio	25 - 60	60
Ystafelloedd Cyfarfod	12 - 20	5
Ystafelloedd Hyfforddiant TG	20 - 30	5
Prif Neuadd	225m <sup>2</sup> / 350	1
Gofod Arddangos NIAC	5,500m <sup>2</sup> / 2000	1

Llety Cyncoed	
Math o Ystafell	Nifer yr Ystafelloedd
Ystafell o'r Radd Flaenaf (Gwely $\frac{3}{4}$ , yn gallu darparu ar gyfer 2 o bobl yn rhannu)	60
Ystafell Sengl gydag Ystafell Ymolchi	290
Ystafell Sengl Safonol	178

Llety Plas Gwyn	
Math o Ystafell	Nifer yr Ystafelloedd
Ystafell Sengl gydag Ystafell Ymolchi	390



# Ystafelloedd Cyncoed

Mae Ystafelloedd Cyncoed yn lleoliad delfrydol ar gyfer cynnal cyfarfodydd, sesiynau hyfforddi a chynadleddau bach a chanolig. Mae'r ystafelloedd yn cynnwys tair ystafell gynhadledd gyfoes, ac mae'n bosibl cyfuno dwy o'r ystafelloedd i greu ystafell gyfarfod fawr gydag amcanestyniad dwbl.

Mae'r tair ystafell wedi'u haddurno mewn arddull modern ac yn elwa o olau naturiol. Mae pob ystafell yn hollol hygrych ac wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod, yn agos at y brif dderbynfa a'r ystafell fwyta. Mae gosodiad y dodrefn yn gwbl hyblyg, felly gallwch eu trefnu er mwyn diwallu eich anghenion penodol i hyd at 80 o bobl.





“  
Roedd y cyfleusterau  
cynadledda yn ardderchog.  
Roedd y staff yn ardderchog  
ac wrth law i helpu o hyd.  
Argymhellwn Gynadleddau  
Met Caerdydd yn ddiffuant.

Heddlu De Cymru

”





# Ystafelloedd Llandaf

Lleoliad cynadledda o'r radd flaenaf wedi'i leoli ar gampws Llandaf. Mae gan yr Ysgol Reoli fynediad a derbynfa drawiadol gyda gofod Atriwm canolog sy'n addas ar gyfer cofrestru cynrychiolwyr, cynnal arddangosfeydd ac arlwyf.

Mae Ystafelloedd Llandaf yn elwa o olau naturiol ac offer sain a gweledol, gyda lle i hyd at 80 o bobl. Yn ogystal, mae'r ystafelloedd yn cynnwys mynedfa ymroddedig a lolfa ddelfrydol ar gyfer croesawu cynrychiolwyr a rhwydweithio cyn neu ar ôl eich digwyddiad.

Mae'r Ystafell Groeso yn lleoliad delfrydol i gynnal cynadleddau corfforaethol, cyfarfodydd rheoli a digwyddiadau rhwydweithio.



“

Cafodd pawb ddiwrnod  
hynod o dda a chafom nifer  
fawr o sylwadau am ba mor  
wych oedd y cyfleusterau!

Diolch am eich holl gymorth  
wrth baratoi ar gyfer y diwrnod  
ac yn ystod y digwyddiad.

”

Cymdeithas Tai  
Cymdeithasol Caerdydd





# Cwrdd â'ch Anghenion Chi

Caiff bwydlen Adfywio ac Atgyfodi Met Caerdydd ei tharddu a'i pharatoi yn fewnol. Mae'r tîm yn angerddol am ddarparu'r detholiad gorau posibl o fwyd i'ch cynnal yn ystod eich digwyddiad.

Mae ystod eang o opsiynau lletygarwch ar gael i ddiwallu anghenion pob digwyddiad a chyllideb. Gallwn gwrdd â gofynion dietegol arbennig ac, os oes gennych gais penodol, gallwch gysylltu â ni a byddwn yn hapus i'ch cynorthwyo i greu bwydlen sy'n cwrdd â'ch anghenion.

Gallwn weini ar gyfer digwyddiadau yn unrhyw un o'r bwytai, caffis neu yn yr ystafelloedd cyfarfod eu hunain.



“  
Diolch am ddiwrnod i'w  
gofio ac am wneud yn  
siŵr bod popeth wedi  
mynd yn llyfn tu hwnt.  
Roedd pawb yn hapus  
gyda'r lleoliad a'r bwyd.  
Byddwn yn argymhell y  
lleoliad i erail. ”

Y Gymdeithas Strôc



# Gorffwyso ac Ymlacio

Mae cael amser i ymlacio ac adfywio yn elfen bwysig o gynadleddau preswyl, sy'n helpu i sicrhau bod cynrychiolwyr yn elwa i'r eithaf o'ch digwyddiad. Mae Cynadleddau Met Caerdydd yn cynnig dros 900 o ystafelloedd gwely, gyda 740 ohonynt yn cynnwys ystafelloedd ymolchi.

Mae pob ystafell yn cynnwys defnydd o gegin a rennir, ynghyd ag ardal eistedd a theledu a chysylltiad diwifr rhad ac am ddim i westeion.

Mae Neuaddau Preswyl Plas Gwyn wedi'u lleoli ym mhentref cadeiriol Llandaf, gyda siopau, bwytai a thafarndai gerllaw. Yn ogystal, gallwch gerdded i ganol dinas Caerdydd ar hyd Llwybr Taf. Mae llety campws Cyncoed wedi'i leoli mewn maestref bleserus i'r gogledd o ganol y ddinas, nepell o lyn a pharc y Rhath.

I adfywio, gall gwsteion gymryd mantais o'r cyfleusterau chwaraeon a hamdden helaeth sydd ar gael i unigolion a grwpiau.





## MEWN FFOCWS

- Ystafelloedd pwrpasol yn cynnwys ystafelloedd ymolchi.
- Pecynnau llety wedi'u teilwra.
- Lleoliadau preswyl tawel.
- Cyfleusterau chwaraeon a hamdden ar y safle.



# Chwaraeon i Bawb

Mae'n bosibl llogi cyfleusterau chwaraeon i grwpiau fel rhan o gynhadledd breswyl, gwersyll hyfforddi neu gystadleuaeth, ac mae hi hefyd yn bosibl i westeion preswyl eu llogi at ddefnydd hamdden ar sail talu i chwarae yn ystod eu harhosiad.



- Caeau rygbi a pêl-droed 3G a gwair
- Cae aml-chwaraeon astroturf
- Pwll nofio dan do
- Canolfan tennis, badminton, pêl-rwyd, pêl-foeli a chyrtau sboncen dan do
- Neuaddau chwaraeon, campfeydd arbenigol a stiwdio dawn
- Canolfan Athletau Dan Do Genedlaethol, gyda thraciau rhedeg dan do ac awyr agored





“

Diolch yn fawr am benwythnos i'w gofio gan yr holl garfan. Cawsom amser gwych a chroeso cynnes gan bawb ar draws y campws, yn ogystal â hoci o'r radd flaenaf. ”

Clwb Hoci Caerlŷr

## MEWN FFOCWS

- Cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf.
- Canolfan Athletau Dan Do Genedlaethol.
- Un safle hollol hygrych.





**Clare Brockway**  
Rheolwr Cynadleddau  
02920 416 184



**Sally Groves**  
Cydllynydd Cynadledda  
02920 415 528



**Beccy Chamberlain**  
Cydllynydd Cynadledda  
02920 416 181

## MEWN FFOCWS

- Arbenigedd cynadleddau a digwyddiadau.
- Tîm cyfeillgar a phroffesiynol, sydd wrth law i'ch cynorthwyo.
- Adborth cwsmeriaid ardderchog.

## Llwyddiant Tîm


Mae gan y Tîm Cynhadledd cyfeillgar a phroffesiynol brofiad helaeth o reoli cynadleddau a digwyddiadau ac maen nhw ar gael i drafod eich digwyddiad ac i'ch cynorthwyo chi mewn unrhyw ffordd o'ch ymholiad cyntaf tan ddiwrnod y digwyddiad ei hun.

Rydym yn ymfalchio mewn darparu gwasaaneth cwsmeriaid o'r radd flaenaf a dyna pam mae cwsmeriaid yn ein defnyddio dro ar ôl tro. .

**Clare Brockway**  
Rheolwr Cynadleddau



# Cysylltu â Ni



**Dod o hyd i ni** - lleoliadau hygyrch mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

**Cyfleusterau parcio** - Mae crynodeb o wybodaeth parcio ceir i gynrychiolwyr cynadleddau ac ymwelwyr ar gael [www.cardiffmet.ac.uk/conferences](http://www.cardiffmet.ac.uk/conferences)

- **Campws Cyncoed** - Heol Cyncoed, Caerdydd, CF23 6XD (Llywio Lloeren CF23 6BN)
- **Campws Llandaff** - Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YB
- **Campws Plas Gwyn** - Heol Llantrisant, Caerdydd, CF5 2XJ

## Cysylltwch â ni i drafod eich digwyddiad

Byddem wrth ein boddau yn darparu datrysiad i'ch digwyddiad chi a byddwn yn gweithio gyda chi trwy gydol y broses gynllunio er mwyn sicrhau y bydd eich digwyddiad yn diwallu eich gweledigaeth. Ffoniwch ni ar **02920 416182** i drafod eich anghenion neu anfonwch neges e-bost at [conferenceservices@cardiffmet.ac.uk](mailto:conferenceservices@cardiffmet.ac.uk)

 @CardiffMetConf

 @CardiffMetConf

 @CardiffMetConf

 @CardiffMetConferences



02920 416 181/2



[conferenceservices@cardiffmet.ac.uk](mailto:conferenceservices@cardiffmet.ac.uk)

☎ 029 2041 6181/2  
✉ [conferenceservices@cardiffmet.ac.uk](mailto:conferenceservices@cardiffmet.ac.uk)  
🌐 [www.cardiffmet.ac.uk/conferences](http://www.cardiffmet.ac.uk/conferences)

🐦 @cardiffmetconf  
📘 /cardiffmetconf



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

